

1af o Fehefin 2020

Annwyl Riant / Warcheidwad

Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn arallgyfeirio a mynd i ddysgu? Oes gennych chi blant sy'n gorffen cwrs prifysgol yr Haf yma neu'n adnabod bobl ifanc mewn sefyllfa debyg? Neu a yw'ch plentyn chi ym mlwyddyn 12 ac yn dechrau ystyried cyrsiau addysg uwch?

Ysgrifennwn atoch ar ran rhwydweithiau ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n rhan o bartneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon gyda'r Drindod Dewi Sant (yr Athrofa) i'ch hysbysu am ddigwyddiad arbennig a gynhelir ar lein ar nos lau yr 11eg o Fehefin. Nod y digwyddiad yw rhannu gwybodaeth am gyrsiau addysgu cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnal ar y cyd rhwng y Brifysgol a'r ysgolion partner. Mae ysgol eich plentyn chi yn rhan o rwydwaith hyfforddi athrawon yn Ne Cymru ac felly gofynnwn yn garedig i chi ledaenu'r neges am y digwyddiad yma a fydd yn sôn am fanteision dilyn gyrfa fel athro cynradd neu uwchradd yn yr Athrofa.

Annogwn chi i ymuno â ni am gyflwyniad a sgwrs anffurfiol am 7 o'r gloch nos lau y 11eg o Fehefin i glywed am fanteision dilyn y cwrs yn yr Athrofa yn Abertawe ac mewn lleoliadau posib yn y De Orllewin a'r De Ddwyrain. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Rhonwen Morris neu Carwen Morgan Davies ar rhonwen@ysgolypreseli.com neu cmd@ysgolypreseli.com er mwyn iddynt anfon y manylion mewngofnodi atoch. Cynhelir y cyfarfod Cyfrwng Cymraeg yma trwy Microsoft Teams.

Os hoffech fynychu cyfarfod cyfrwng Saesneg croeso i chi ymuno yn noson agored dan arweiniad Ysgol Doc Penfro am 5.00 o'r gloch ar nos Lun 15fed o Fehefin. Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Katie Crockford Morris ar MorrisK111@hwbmail.net er mwyn datgan eich diddordeb a derbyn y manylion mewngofnodi.

Gyda diolch
Yn gywir

Rhonwen Morris a Carwen Morgan Davies
Ysgol y Preseli



Meinir Thomas
Ysgol Llanhari